Estyn
Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llandrillo-yn-Rhos

Ffordd Elwy
Llandrillo-yn-Rhos
Bae Colwyn
Conwy
LL28 4LX

Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llandrillo-yn-Rhos

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llandrillo-yn-Rhos |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 1 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 440 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 347 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 40 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 14.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 6.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.7% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2024 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/02/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd meithringar lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn awyddus i ddysgu. Mae arweinwyr a staff yn sefydlu perthnasoedd cryf a pharchus â disgyblion. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn gyson dda. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'n dda, yn canolbwyntio ar eu gwaith yn llwyddiannus ac yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae cwricwlwm difyr yr ysgol yn cymell diddordeb bron pob un o'r disgyblion ac yn datblygu eu medrau cyfathrebu a rhifedd yn effeithiol. Mae staff yn modelu Cymraeg llafar yn frwdfrydig ac yn hyrwyddo medrau llafaredd disgyblion yn dda. Mae athrawon ac arweinwyr yn monitro cynnydd a lles disgyblion yn ofalus. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i ddysgu blaenorol disgyblion i gynllunio tasgau sy'n meithrin eu gwybodaeth a'u medrau yn raddol. Oherwydd hyn, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddarllenwyr rhugl, yn ysgrifenwyr hyfedr, ac yn fathemategwyr cymwys.

Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Maent yn gwneud defnydd targedig o ymyriadau â ffocws i fynd i'r afael â bylchau yn nysgu disgyblion a hyrwyddo'u lles yn fuddiol. Mae staff yn gwerthfawrogi barn disgyblion ac yn gweithio'n adeiladol gyda grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yr ysgol i wella darpariaeth a chefnogi'r gymuned leol a'r gymuned ehangach.

Mae uwch arweinwyr yn cynorthwyo staff i weithio'n hynod effeithiol fel tîm. Maent yn meithrin cydweithio cryf i ddatblygu dealltwriaeth glir a chywir ar y cyd o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau gwella. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn rhoi newidiadau a nodwyd ar waith yn llwyddiannus ac yn ysgogi gwelliannau gwerthfawr yn ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cefnogi gwaith yr ysgol yn ddiwyd. Fodd bynnag, mae eu rôl mewn gwerthuso darpariaeth yr ysgol ac mewn gweithredu fel ffrind beirniadol i'r ysgol yn llai datblygedig.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau rôl llywodraethwyr mewn gwerthuso darpariaeth yr ysgol a dwyn arweinwyr i gyfrif

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr wedi sefydlu dealltwriaeth gref ar y cyd ymhlith disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni o werthoedd craidd a gweledigaeth yr ysgol. Maent yn gosod cyfeiriad strategol clir ac yn meithrin cydweithio pwrpasol ar draws y tîm staff i gyflawni disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer cynnydd a lles disgyblion. Oherwydd hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llawn cymhelliant, yn mwynhau eu dysgu ac yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol sy'n cynorthwyo disgyblion i deimlo'n hyderus ac yn meithrin balchder yn eu cymuned a Chymru yn llwyddiannus. Mae cyfraddau presenoldeb da ac ymddygiad eithriadol o dda disgyblion yn adlewyrchu eu brwdfrydedd dros eu hysgol a'u dealltwriaeth o werth addysg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau. Maent yn deall pam mae yna reolau a sut mae'r rhain yn eu cadw'n ddiogel.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus a gwrandawyr astud. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwrando'n dda ar oedolion, ac yn ymateb yn dda iddynt. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad â hyder cynyddol, gan ddefnyddio geirfa gynyddol. Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn mynegi eu syniadau mewn modd huawdl ac aeddfed.

Mae arweinwyr yn rhoi amlygrwydd gwerthfawr i ddatblygu ethos Cymreig yr ysgol. Mae staff yn modelu'r Gymraeg yn dda. Maent yn siarad Cymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd bob dydd ac yn defnyddio gemau a chyd-destunau cyfarwydd i sicrhau gwybodaeth a brwdfrydedd disgyblion iau yn effeithiol. Mae athrawon yn adeiladu ar y profiadau cynnar hyn yn dda fel bod y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth dda o batrymau a geirfa Gymraeg yn hyderus.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn dda. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drafod yr hyn y maent yn ei ddarllen a'i glywed a datblygu eu geirfa a'u hamgyffrediad yn llwyddiannus. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu ag annibyniaeth gynyddol, gan ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau i gyfathrebu â gwahanol

gynulleidfaoedd yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob un o'r disgyblion yn ddarllenwyr rhugl a brwdfrydig, ac yn ysgrifenwyr cymwys.

Mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth ysgogol o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer disgyblion iau i gyfeirio'u dysgu eu hunain a datblygu eu hannibyniaeth yn fuddiol. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd da o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored i alluogi'r disgyblion ieuengaf i archwilio cysyniadau mathemategol yn ymarferol. Mae pob un o'r staff yn sicrhau bod dosbarthiadau yn amgylcheddau dysgu tawel a pharchus lle mae disgyblion yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn canolbwyntio ar eu dysgu'n gynhyrchiol. Oherwydd hyn, mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn cydweithio'n dda ac yn defnyddio'u rhesymu i wneud penderfyniadau synhwyrol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau mathemategol cryf. Erbyn Blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio ystod dda o weithrediadau mathemategol i ddatrys problemau addas yn gywir. Maent yn dewis dulliau effeithlon ac yn esbonio'r dulliau a ddefnyddiant yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol a digidol i'w dysgu ehangach yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn dda. Maent yn gosod amcanion clir ac yn defnyddio holi i wirio dealltwriaeth disgyblion a herio'u meddwl yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth a ddarperir gan staff ac, yn yr achosion gorau, yn defnyddio sbardunau buddiol i wneud gwelliannau gwerthfawr i'w gwaith.

Mae staff yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesol a moesegol a hyrwyddo'u dealltwriaeth o degwch. Er enghraifft, maent yn defnyddio gwasanaethau i annog disgyblion i ystyried a gwerthfawrogi'r hyn sy'n eu gwneud nhw a phobl eraill yn unigryw. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i gyd-dynnu'n dda â'i gilydd a datblygu empathi a derbyniad.

Mae staff yn darparu gofal a chymorth gwerthfawr sy'n galluogi bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i wneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol. Maent yn cyfathrebu'n dda â chydweithwyr ac yn cydweithio'n fuddiol ag asiantaethau allanol, gan ffurfio partneriaethau defnyddiol sy'n ymestyn darpariaeth yr ysgol yn fuddiol. Mae staff yn monitro cynnydd pob disgybl yn drylwyr. Maent yn defnyddio adolygiadau rheolaidd i gynllunio profiadau dysgu sy'n cefnogi ac yn herio bron pob un o'r disgyblion yn dda.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd deallus o wybodaeth a deilliannau asesu uniongyrchol i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn gywir. Mae hyn yn eu galluogi i dargedu gwelliannau â ffocws yn hyderus. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i

fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a nodwyd, er enghraifft trwy werthuso gwaith disgyblion ar y cyd. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o'r cynnydd y dylai'r rhan fwyaf o ddisgyblion ei wneud ac yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cynnal disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad a lles disgyblion.

### Ciplun: Datblygu tîm staff hynod effeithiol

Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff ar bob lefel i ddatblygu'n broffesiynol a defnyddio'u medr a'u harbenigedd. Maent yn gweithredu fel modelau rôl hynod effeithiol sy'n mentora cydweithwyr i arwain ar welliannau â ffocws. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o gyfarfodydd staff rheolaidd i gynorthwyo athrawon i fyfyrio'n adeiladol ar eu harfer a meithrin dealltwriaeth glir o ba welliannau sydd eu hangen. Oherwydd hyn, mae'r ysgol wedi datblygu tîm staff hynod broffesiynol sy'n dangos gallu cryf i arwain ac arloesi'n effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o newidiadau wedi'u cynllunio yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol hanes cryf o wella, gan gynnwys yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol fel gwella medrau Cymraeg disgyblion, datblygu cwricwlwm yr ysgol, a chynyddu cyfraddau presenoldeb disgyblion.

Mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr yr ysgol i rannu a chyflwyno'u syniadau. Maent yn chwarae rôl weithredol mewn ffurfio bywyd yr ysgol ac yn dylanwadu ar bolisïau sy'n effeithio arnynt. Maent yn gwerthfawrogi cymryd rhan yn y grwpiau hyn ac yn falch o'r arian y maent yn ei godi a'r gwaith a wnânt i wella'r ysgol a chefnogi'r gymuned ehangach.

Mae llywodraethwyr yn wybodus ac yn dangos cefnogaeth gref i'r ysgol. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn ddiwyd ac yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o gyllid grant, i wella deilliannau ar gyfer disgyblion targedig. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi sefydlu cyfrifoldebau newydd sy'n dechrau eu galluogi i fonitro cynnydd yr ysgol mewn datblygu ei chwricwlwm yn agosach. At ei gilydd, fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae rôl llywodraethwyr mewn gwerthuso darpariaeth yr ysgol ac mewn dwyn arweinwyr i gyfrif. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff yn dda. Maent yn darparu cymorth defnyddiol â ffocws pan fydd angen ac yn rhoi ystyriaeth briodol i sicrhau cydbwysedd rhwng eu baich gwaith a'u lles.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  07/04/2025